

## ADRODDIAD ADOLYGU YMARFER OEDOLION CTMSB 06/2020

### Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig

Ynghylch: Oedolyn N

### Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Mae Adolygiad Ymarfer Oedolion (APR) estynedig wedi'i gynnal yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3". Dywed y canllawiau y bydd adolygiad estynedig yn cael ei gomisiynu gan y bwrdd diogelu pan fo oedolyn sy'n wynebu risg, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad, yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol, ac mae wedi:

- Marw; neu
- Cael anaf a allai beryglu ei fywyd; neu
- Dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

Oherwydd natur y digwyddiad, cytunwyd yng Ngrŵp Cydadolygu Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg ar 1<sup>af</sup> Gorffennaf 2020 bod y meini prawf wedi'u bodloni ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig. Mae'r amgylchiadau fel a ganlyn:

Ar y 14<sup>eg</sup> Medi 2019, bu farw Oedolyn N drwy hunanladdiad yn 20 mlwydd oed. Roedd Oedolyn N, adeg ei marwolaeth, yn byw yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg (CTM). Fodd bynnag, roedd yn flaenorol yn Blentyn a oedd yn Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol yn Lloegr, a oedd â chyfrifoldeb am ei gofal a'i chefnogaeth hyd at 18 oed. Yn dilyn hyn, byddai Oedolyn N wedi bod â hawl i gefnogaeth o dan Drefniadau Gadael Gofal, fel cyngor, cefnogaeth ac arweiniad.

Symudodd Oedolyn N yn ôl i ardal CTM tua amser ei phen-blwydd yn 16 oed ac ailgysylltu â'i mam waed. Parhaodd i fyw yn yr ardal ar ôl ei phen-blwydd yn 18 oed a symudodd i'w llety ei hun. Cyn ei marwolaeth, tra oedd yn ardal CTM, bu'n destun cam-drin domestig difrifol, bu'n cam-drin sylweddau i'r graddau ei bod wedi colli ymwybyddiaeth o leiaf unwaith ac roedd ganddi feddyliau parhaus am hunanladdiad a hunan-niweidio. Yr amgylchiadau hyn sy'n ffurfio'r adolygiad a byddant yn cael eu harchwilio ymhellach drwy gydol yr adolygiad.

### **Cefndir a Phortread**

Mabwysiadwyd Oedolyn N. Symudodd hi a phlentyn arall o'r un teulu i ardal Awdurdod Lleol yn Lloegr gyda'u rhieni mabwysiadu yn 2011. Ar ôl y symud hwn, gwnaeth Oedolyn N honiad o dreisio (heb ei gadarnhau) yn erbyn ei thad mabwysiadu. Erbyn mis Mawrth 2012, roedd y mabwysiadu wedi methu ac roedd Oedolyn N yn cael llety gan Awdurdod Lleol yn Lloegr o dan Adran 20 (Deddf Plant, 1989).

Bu llawer o achosion ohoni'n mynd ar goll o ofal a chanfuwyd ei bod mewn perygl mawr o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Yn 2012, cafodd ei chadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (Adran 3) a'i derbyn i ysbyty diogelwch canolog yn Llundain, oherwydd hunan-niweidio difrifol ac ymddygiad ymosodol.

Derbyniodd ddiagnosis o anhwylder ymddygiad ac emosiynau cymysg, ADHD ac anhwylder personoliaeth emosiynol ansefydlog. Cafodd ei rhyddhau o'r ysbyty ddiwedd mis Ebrill 2014 i leoliad therapiwtig.

Cysylltodd Oedolyn N â'i mam waed, a theimlai'r ddwy y dylai Oedolyn N ddychwelyd i'w gofal. Gwrthododd Oedolyn N fewnbwn therapiwtig ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'i derbyn i'r ysbyty yn blentyn ac fel oedolyn parhaodd i wrthod cefnogaeth ac ymyriadau mewn perthynas â'i hiechyd meddwl.

Chwalodd y berthynas gyda'i mam waed yn gyflym a gwnaed trefniadau iddi symud i lety â chymorth, a barhaodd nes ei bod yn oedolyn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaed nifer o Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (PPN) (19 rhwng 07.09.2015 a 17.08.2016) yn dilyn cysylltiadau â'r heddlu. Roedd llawer o'r PPNs hyn yn ymwneud â cham-drin domestig parhaus gan bartner Oedolyn N ar y pryd (trafodwyd hi yn MARAC<sup>1</sup> yn y cyfnod hwn), ond roedd PPNs eraill yn adlewyrchu gofid emosiynol Oedolyn N, lle'r oedd â meddyliau am hunanladdiad, wedi hunan-niweidio neu'n defnyddio sylweddau'n drwm.

Nid yw'r PPNs uchod wedi'u cynnwys yn llinell amser yr Adolygiad hwn, ond maent yn adlewyrchu amgylchiadau anhrefnus ac anawsterau Oedolyn N ar y pryd. Fel oedolyn ac o fewn y llinell amser, derbyniwyd tri PPN ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, bod dan ddylanwad sylweddau ac fel dioddefwr Cam-drin Domestig. Fel oedolyn, ystyriwyd bod ganddi alluedd a pharhaodd i wrthod ymyriadau gan y Gwasanaethau Cam-drin Domestig a gwrthod cefnogaeth mewn perthynas â'i phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Fel rhan o'r Adolygiad hwn, cyfarfu'r adolygwyr â'i mam waed. Disgrifiodd Oedolyn N fel unigolyn oedd yn byw bob dydd fel pe bai'r olaf iddi. Disgrifiodd ei mam waed hi fel unigolyn

---

<sup>1</sup> Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth

ar ei gorau pan oedd gyda'i chariad cyntaf, dyma pryd yr oedd hi fwyaf sefydlog. Dyma beth oedd hi'n ei ddisgrifio fel 'bywyd teuluol normal' i Oedolyn N, gan fod gan ei chariad blentyn, a dyma oedd Oedolyn N yn ei ddymuno iddi hi ei hun. Cafodd ei farwolaeth cyn ei amser effaith sylweddol ar les Oedolyn N a'i phroblemau iechyd meddwl parhaus. Roedd y profiad hwn yn drawmatig iawn iddi, gan iddi nid yn unig gollu ei phartner, ond hefyd y cysylltiad â'i blentyn. Disgrifiodd mam Oedolyn N y profiad hwn fel rhywbeth a amlygodd mewn dirywiad sylweddol pellach yn ei hiechyd meddwl. Roedd yn ofnus iawn o gael ei chadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac mae'n ymddangos iddi ddechrau defnyddio sylweddau anghyfreithlon fel ffordd o ymdopi.

## Ymarfer a dysgu sefydliadol

Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 8<sup>fed</sup> Gorffennaf 2021. Cynhaliwyd y Digwyddiad Dysgu hwn ar Microsoft Teams, gydag amrywiaeth o gynrychiolwyr o asiantaethau a oedd wedi gweithio gydag Oedolyn N yn bresennol, yn ogystal â'r rhai a oedd yn gallu cyfrannu at ddysgu ac unrhyw argymhelliad a chamau gweithredu wrth symud ymlaen. Rhannwyd llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol mewn perthynas ag Oedolyn N ag ymarferwyr, a gafodd gyfle i nodi meysydd o arfer effeithiol a meysydd i'w gwella. Rhannwyd y llinell amser yn bedair rhan rhwng mis Mai 2017 a mis Medi 2019. Darparwyd gwybodaeth atodol hefyd.

Yn ystod y Digwyddiad Dysgu, nodwyd y themâu canlynol:

- 1: Mekanweithiau cefnogi ar gyfer y rhai sy'n symud i awdurdod lleol gwahanol fel person ifanc ac sy'n parhau i aros yno fel oedolyn.
- 2: Trosglwyddo cyfrifoldeb mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag ôl-ofal Adran 117.

- 3: Effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) ar oedolion a phrofedigaeth a cholled sydyn
- 4: Pontio i fyd oedolion
- 5: Sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chefnogaeth yn cael eu hategu gan dystiolaeth i gynnwys dewis Oedolyn N i wrthod cefnogaeth a'r rhesymau dros hyn.

**Thema Un:**

**Mecanweithiau cefnogi ar gyfer y rhai a leolir yn ardal yr awdurdod lleol o'r tu allan**

Symudodd Oedolyn N i'r Awdurdod Lleol yn tua 16 i 17 oed, fel plentyn a oedd yn arfer derbyn gofal gan awdurdod arall. Roedd hi wedi cysylltu â'i mam waed ac wedi dychwelyd i fyw gyda hi. Nid oedd yr awdurdod cyfrifol bryd hynny yn gwrthwynebu'r symud hwn a bu'n byw gyda'i mam waed am gyfnod o chwe mis (mae hyn y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad ond mae'n darparu gwybodaeth gefndir - aseswyd y trefniant hwn gan yr awdurdod presennol). Roedd hwn yn gyfnod heriol i Oedolyn N a'i mam (roedd gan ei mam hefyd blant iau a oedd yn byw gyda hi).

Pan chwalodd hyn, symudodd Oedolyn N i'w llety ei hun, felly comisiynodd yr awdurdod cyfrifol asiantaeth i ddarparu lleoliad â chymorth iddi gyda lefel uchel o gefnogaeth i gynnwys cefnogaeth yn ystod y nos cyn ei phen-blwydd yn 18 oed.

Yn dilyn ei phen-blwydd yn 18 oed, trosodd hyn i drefniant cymorth lle bo'r angen gyda lefelau uchel o gefnogaeth ac roedd gan Oedolyn N ei thenantiaeth ei hun. Yn 18 oed comisiynodd yr awdurdod cyfrifol ei drefniadau gadael gofal i asiantaeth allanol a ddaeth yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth ac arweiniad a monitro'r cymorth lle bo'r angen.

Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd am ddigwyddiadau sylweddol ond ni aethpwyd ar eu hôl. Er enghraifft, gwelwyd bod Oedolyn N yn anymwybodol yn dilyn defnydd honedig o gyffuriau,

nid yw'n ymddangos bod ymyrraeth feddygol wedi'i sicrhau ar y pryd. Mae'n amlwg i'r adolygwyr, ac fel y nodwyd yn y Digwyddiad Dysgu, bod yr achosion a ddisgrifiwyd uchod yn dod yn fwyfwy anodd eu rheoli a bod Oedolyn N yn mynd yn anhrefnus. Fodd bynnag, roedd yn parhau i wrthod cefnogaeth gan asiantaethau allanol a gwasanaethau lleol ac ni chodwyd pryderon ynghylch ei gallu i wneud penderfyniadau ynghylch hyn.

Roedd achosion o ddefnyddio cyffuriau a gorddosau posibl, roedd yn ddioddefwr cam-drin domestig ac roedd yn ymddangos ei bod yn dioddef o ddirywiad yn ei hiechyd meddwl. Mae hyn wedi arwain yr adolygwyr i ystyried y mecanweithiau cefnogi sydd ar waith ar ei chyfer yn yr ardal lle'r oedd hi'n byw a sut gellid bod wedi'i hannog i gael mynediad atynt mewn ffordd gefnogol, gan ystyried ei bod mewn ardal anghyfarwydd iddi, a beth ellid ei gynnig.

Gallai'r gefnogaeth a ddarparwyd gan ei hawdurdod gwreiddiol fod wedi bod yn anodd oherwydd y pellter a'r diffyg gwybodaeth leol am ardal CTM yr oedd yn byw ynddi. Roedd y gwasanaeth gadael gofal a gomisiynwyd yn cadw mewn cysylltiad â hi, a gwnaed hyn yn bennaf drwy alwadau ffôn ac ymweliadau.

Fodd bynnag, pan oedd Oedolyn N mewn argyfwng, roedd y gefnogaeth a roddwyd yn cael ei harwain yn bennaf gan y darparwr a gomisiynwyd gyda mynediad cyfyngedig i unrhyw gefnogaeth amlasiantaeth. Roedd hyn, yn arbennig, yn ymwneud â'i hiechyd meddwl a chyfnodau o ddefnyddio sylweddau, fodd bynnag cydnabyddir bod Oedolyn N yn parhau i wrthod ymyrraeth. Roedd diffyg gwybodaeth leol am ddarpariaeth a chefnogaeth (hyn yn rhannol oherwydd bod ei chefnogaeth gadael gofal yn cael ei darparu gan yr awdurdod gwreiddiol). Roedd yn ymddangos bod dibyniaeth ar Oedolyn N yn cael mynediad at ei Meddyg Teulu i ddarparu cefnogaeth. Roedd diffyg dull unedig o weithredu a gwybodaeth am ddarpariaeth leol yn ffactor posibl yn ei phenderfyniadau i beidio â chael cefnogaeth gan nad oedd Oedolyn N yn ymwybodol o'r hyn y gellid ei ddarparu.

Efallai y byddai wedi bod yn fwy buddiol i'r awdurdod gwreiddiol gomisiynu gwasanaeth gadael gofal o'r ardal y bu'n byw ynddi neu yn wir gysylltu â'r awdurdod y bu'n byw ynddo i drafod opsiynau cefnogi posibl, i alluogi Oedolyn N i ddatblygu cysylltiadau lleol.

### **Pwyntiau Dysgu**

Gall materion trawsffiniol fod yn her i awdurdodau lleol, yn aml ceir trafodaethau sylweddol am gyfrifoldebau ei gilydd, a all arwain at ofal a chymorth cyfyngedig i bobl ifanc a mynediad cyfyngedig at wasanaethau lleol. Os mai awdurdod arall sy'n gyfrifol a bod y person yn byw y tu allan iddo, dylid cynnal trafodaethau ynghylch y gefnogaeth y gellir ei darparu yn lleol a dylid ystyried comisiynu gwasanaethau lleol i ddarparu cefnogaeth parhaus, a allai barhau pan mae'r person yn oedolyn.

### **Thema Dau:**

### **Trosglwyddo cyfrifoldeb mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag ôl-ofal Adran 117.**

Roedd Oedolyn N wedi'i chadw'n flaenorol o dan Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn Lloegr. Ym mis Ionawr 2013 cafodd ei chadw wedi hynny o dan Adran 3 (ar gyfer triniaeth) a'i rhoi mewn uned glasoed oedd yn cael ei gweithredu gan y gwasanaeth iechyd. Er bod y digwyddiad hwn y tu hwnt i'r llinell amser, mae'n berthnasol o ran ôl-ofal Adran 117.

Byddai gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lle cafodd ei chadw ddyletswydd i barhau i fonitro ei hiechyd meddwl gan ei bod wedi bod yn destun cadw dan y ddeddf iechyd meddwl a bod ganddi hawl i ôl-ofal Adran 117. Dylai, o leiaf, fod wedi cael adolygiad blynyddol o'i hiechyd meddwl ac ni allai'r adolygwyr ddod o hyd i unrhyw gofnod o hyn yn cael ei wneud nac unrhyw gofnod iddi gael ei rhyddhau o ôl-ofal Adran 117.

Roedd yn amlwg i'r adolygwyr ac yn y Digwyddiad Dysgu bod hyn yn peri pryder sylweddol. Roedd yn amlwg bod ei hiechyd meddwl yn gwaethgu, a'i defnydd o gyffuriau'n cynyddu, a oedd hefyd yn effeithio ar y dirywiad yn ei hiechyd meddwl, ond nid yw'n ymddangos ar unrhyw adeg bod gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn yr ardal yr oedd wedi ei lleoli yn ymwybodol o'i statws Adran 117. Roedd hyn yn rhoi'r hawl iddi gael gofal a chefnogaeth mewn perthynas â'i hiechyd meddwl.

Dylai'r bwrdd iechyd lle cafodd ei chadw fod wedi trosglwyddo a hysbysu'r bwrdd iechyd lleol yn CTM i sicrhau bod ei hiechyd meddwl yn cael ei fonitro o leiaf. Fodd bynnag byddai'r cyfrifoldeb wedi bod gyda'r awdurdod lleol y cafodd ei chadw ynddo o hyd. Ni all yr adolygwyr ddod o hyd i hysbysiad o statws Oedolyn N, sy'n peri pryder, ac nid oes tystiolaeth i awgrymu iddi gael ei rhyddhau o ôl-ofal Adran 117.

Pan ddefnyddiodd Oedolyn N wasanaethau gofal iechyd meddwl sylfaenol, nid oedd yr wybodaeth hon ar gael i'r asesswr ar y pryd. Pe bai wedi bod ar gael, byddai hyn wedi rhoi gwybod iddo am ei chadw yn yr ysbyty a'i hawliau, a gellid bod wedi gwneud trefniadau i ofyn am ei hanes, er mwyn cynnal asesiad llawn a darparu a chynnig cefnogaeth.

Er i Oedolyn N gael ei disgrifio gan ei mam fel un a oedd yn ofni unrhyw gaethiwo pellach, (mae'n amheus y byddai Oedolyn N wedi datgelu'r wybodaeth hon), roedd yr wybodaeth hon mewn perthynas â'i statws yn gyfle a gollwyd i ddarparu'r gofal iechyd meddwl priodol iddi gan asiantaethau yn yr ardal lle'r oedd hi'n byw a gallai fod wedi ffurfio dull gwahanol o weithredu a mynediad at wasanaethau gofal iechyd meddwl eilaidd ac unrhyw ymyriadau pellach.

Mae'r adolygwyr wedi nodi hwn fel maes dysgu, yn enwedig mewn perthynas â phobl ifanc sy'n cael eu cadw a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â gofal a chefnogaeth barhaus, yn benodol ym maes iechyd meddwl.



**Pwyntiau dysgu:**

Dylai'r rhai sy'n cefnogi pobl ifanc sydd wedi bod yn destun cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ymgwyfarwyddo â therfynau cyfreithiol y Ddeddf a dylid cyhoeddi hyfforddiant a chanllawiau priodol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf.

**Thema Tri:**

**Effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) mewn oedolion, profedigaeth sydyn a cholled**

Cafodd Oedolyn N ACEs sylweddol ac mae'r adolygwyr a'r rhai a fynychodd y Digwyddiad Dysgu yn credu bod y rhain wedi effeithio arni pan oedd yn oedolyn. Ochr yn ochr â'i phroblemau iechyd meddwl a'i diagnosis, gallai hyn arwain at ymddygiadau a oedd yn hynod anhrefnus ac yn niweidiol iawn iddi.

Roedd gwydnwch a phrofiadau Oedolyn N yn golygu ei bod yn bosibl nad oedd ganddi'r mecanweithiau ymdopi nac yn wir y gefnogaeth briodol i ddelio ag effaith sydyn profedigaeth a cholled. Bu farw ei phartner mewn amgylchiadau trasiig, a cholodd gysylltiad sylweddol â'i blentyn. Ochr yn ochr â'i phrofiadau ac ACEs a'i mecanweithiau cefnogi cyfyngedig, dylai'r gefnogaeth a roddwyd iddi fod wedi ystyried yr holl ffactorau hyn.

Sefydlodd Oedolyn N berthynas newydd a ddisgrifiwyd fel un wenwynig gan ei mam waed. Dechreuodd ddefnyddio sylweddau a newidiodd ei hymddygiad yn sylweddol. Roedd hi hefyd yn ddioddefwr trais domestig a rheolaeth gan ei phartner ar y pryd, a arweiniodd at gyswllt parhaus â'r heddlu. Ar yr adeg hon, dechreuodd y gefnogaeth a roddwyd iddi leihau, gwrthododd gefnogaeth pan oedd yn oedolyn hefyd, gan wrthod atgyfeiriad i wasanaethau oedolion a disgrifiwyd nad oedd yn ymgysylltu â'r gefnogaeth a gynigiwyd iddi. Yn ystod y

cyfnod hwn, ni wnaeth y rhai a oedd yn ei chefnogi gwestiynu ei gallu i wneud penderfyniadau.

Roedd darparu cefnogaeth ac arweiniad gan ddarpariaeth gadael gofal y tu allan i'r sir yn her. Roedd yn ymddangos bod y darparwr a gomisiynwyd yn cefnogi Oedolyn N gyda'i llesiant emosiynol a'i hanghenion cefnogi heb unrhyw fynediad at wasanaethau lleol. Er bod Oedolyn N wedi gwrthod y ddarpariaeth hon, gallai hyn fod wedi cyfrannu at ei dirywiad.

Gallai'r diffyg rhannu gwybodaeth, yn arbennig yn ymwneud â'i statws iechyd meddwl hanesyddol pan gafodd ei gweld gan wasanaethau iechyd meddwl, fod wedi bod yn gyfle a gollwyd i ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl proffesiynol yn ymwneud â thrawma, colled, profedigaeth ac effaith ACEs. Pe bai'r wybodaeth hon wedi'i darparu a'i statws yn hysbys, gallai'r aseswr fod wedi gofyn am gofnodion Oedolyn N a byddai hanes llawn wedi'i ddarparu.

Disgrifiwyd Oedolyn N gan ei mam fel un a oedd yn hynod ofnus o gael ei chadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Mae'n amheus a fyddai Oedolyn N wedi datgelu'r wybodaeth hon yn wirfoddol. Fodd bynnag, byddai ei hanes wedi bod yn hysbys a gallai dull arall o weithredu fod wedi cael ei fabwysiadu.

### **Pwyntiau Dysgu:**

Pan fo person ifanc yn symud i ardal wahanol a'i fod yn dod o dan Adran 117, dylai'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl wybodaeth briodol yn cael ei rhannu o fewn yr awdurdod y mae'r person ifanc wedi symud iddo. Dylid gwneud cysylltiadau â'r awdurdod lleol i benderfynu pa wasanaethau sydd ar gael er mwyn gallu trafod gyda'r person ifanc i'w helpu i wneud penderfyniadau.

Wrth gomisiynu darparwr cefnogaeth, dylai'r comisiynydd ddefnyddio'r darparwyr a ffafir lle mae'r person ifanc yn byw. Byddai hyn yn galluogi'r person ifanc i ddatblygu cysylltiadau lleol a dylai'r darparwr fod â gwybodaeth am ddarpariaeth leol.

Gallai effaith y brofedigaeth sydyn a'r golled ac ACEs Oedolyn N gael eu hystyried drwy gyfarfod ffurfio a chynllunio i ystyried y gefnogaeth briodol i'w darparu, pe bai wedi cael cefnogaeth gan bartner amlasiantaeth.

#### **Thema Pedwar:**

#### **4: Pontio i Oedolyn**

Roedd Oedolyn N yn berson ifanc a oedd yn prysur droi'n oedolyn pan symudodd i ardal CTM. Roedd hi'n byw mewn ardal a oedd nid yn unig yn anghyfarwydd iddi, ond hefyd i'r rhai oedd yn ei chefnogi fel y crybwyllwyd yn flaenorol. Roedd Oedolyn N yn blentyn a oedd yn arfer derbyn gofal, sy'n golygu bod gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau statudol i ddarparu gofal a chefnogaeth barhaus i baratoi pobl ifanc ar gyfer bod yn oedolion. Er bod y dyletswyddau hyn wedi'u cyflawni yn y gefnogaeth a ddarparwyd ac a gomisiynwyd, roedd rhai meysydd cynllunio ynghylch ei hiechyd meddwl y gellid bod wedi eu gwella.

Gan fod Oedolyn N yn destun trefniant ôl-ofal Adran 117 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, dylai atgyfeiriadau priodol fod wedi'u gwneud i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol yn yr ardal lle'r oedd hi'n byw, a gellid bod wedi trosglwyddo'r gofal iechyd meddwl. Byddai Oedolyn N wedi bod â hawl i adolygiad blynyddol o dan Adran 117, nid yw'n ymddangos bod hyn wedi digwydd. Byddai'r awdurdod y cafodd ei chadw ynddo yn parhau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn ac, ochr yn ochr â'r gwasanaethau iechyd, dylai fod wedi monitro hyn, a phe na bai unrhyw bryderon byddai wedi rhyddhau Oedolyn N o Adran 117. Yn y Digwyddiad Dysgu, nodwyd bod hwn yn gyfle a gollwyd i ddarparu cefnogaeth i Oedolyn N pan oedd yn oedolyn, yn enwedig o ran ei hiechyd meddwl.

### **Pwyntiau Dysgu:**

Dylid ystyried trefniadau pontio ar adegau allweddol ar siwrnai person ifanc, lle mae arwyddion clir bod angen cefnogaeth pan fydd yn oedolyn.

Dylai ymarferwyr ymgysgu â'r trefniadau pontio yn yr ardal leol a mabwysiadu Egwyddorion Pontio'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol fel arfer da wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **5: Pwysigrwydd ymarfer tystiolaeth sy'n cefnogi darpariaeth cam i lawr o ofal**

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cynnwys ystod eang o ddulliau ac ymyriadau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig bod mynediad prydlon at asesiadau ac ymyriadau proffesiynol yn unol â'r anghenion a'r risgiau a aseswyd gan unigolyn.

Yn y Digwyddiad Dysgu, nodwyd bod anghenion cefnogi Oedolyn N a'r gefnogaeth a ddarparwyd yn newid yn rheolaidd, heb fod yn seiliedig yn ôl pob tebyg ar asesiadau priodol ac adolygiadau rheolaidd i gefnogi darpariaeth cam i lawr o ofal. Er y gallai Oedolyn N fod wedi gwrthod y gefnogaeth barhaus hon, nid yw hyn yn glir drwy gydol y llinell amser, fodd bynnag mae'r adolygwyr yn deall bod Oedolyn N wedi gwrthod cefnogaeth barhaus yn rheolaidd.

Gellid priodoli hyn yn rhannol i'r cyfraniad cyfyngedig gan weithwyr proffesiynol eraill a'i mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl. Roedd yn ymddangos bod gorddibyniaeth ar y darparwr yn rhannu gwybodaeth heb wneud gwaith dilynol drwy asesiadau priodol. Byddai'r gwasanaeth cyfrifol sy'n darparu'r trefniadau gadael gofal statudol yn hysbysu'r awdurdod cyfrifol am y ddarpariaeth o ofal a chefnogaeth uniongyrchol a byddai'r gwasanaethau'n

camu i lawr. Nid yw'n ymddangos i'r adolygwyr nac yn y Digwyddiad Dysgu bod hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau priodol. Pe bai dull amlddisgyblaethol wedi'i fabwysiadu, ac Oedolyn N wedi cydsynio, byddai fformwleiddio a thystiolaeth briodol wedi'u cynnal ac wedi cefnogi dull gwybodus o ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau iechyd meddwl priodol i Oedolyn N.

### **Pwyntiau Dysgu:**

Dylid mabwysiadu ymarfer ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth bob amser er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a darparu'r dystiolaeth briodol i gefnogi camu i lawr o ddarparu gofal. Bydd y dull hwn o weithredu yn cefnogi'r unigolyn hefyd ac yn cefnogi rheoli a lleihau unrhyw feysydd risg.

## **Gwella Systemau ac Ymarfer**

### **Argymhellion:**

1. Pan fydd pobl ifanc yn symud i ardal awdurdod lleol arall, ar ôl bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, a bod cefnogaeth yn cael ei darparu drwy drefniadau gadael gofal gan yr awdurdod gwreiddiol, yr arfer da i'r awdurdod gwreiddiol fyddai hysbysu'r awdurdod lleol y maent yn symud iddo.

*Pan fydd plant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau y tu allan i'r sir mae'n ofynnol hysbysu'r awdurdod y maent wedi'u lleoli ynddo, ond gan nad oedd hwn yn lleoliad yn cael ei reoleiddio nid oedd unrhyw ofynion. Fodd bynnag, gan fod person ifanc a oedd yn byw yn ardal CTM a allai fod wedi bod angen cefnogaeth a gwasanaethau, byddai'r*

*awdurdod lleol wedi cael gwybod pan godwyd pryderon, a gallai cyfeirio fod wedi digwydd o bosibl.*

2. Dylai awdurdodau gwreiddiol, wrth gomisiynu cefnogaeth, wneud ymholiadau o fewn yr awdurdod lleol y mae'r person ifanc yn symud iddo, er mwyn comisiynu darparwr cefnogaeth yn yr ardal leol sy'n gyfarwydd â'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y gellir eu rhoi a meithrin cysylltiad ar gyfer y person ifanc.

*Nododd yr adolygwyr y gall fod yn her wrth reoli a chefnogi pobl sy'n byw y tu allan i'w hawdurdod gwreiddiol. Gallai gwybodaeth leol am yr ardal a'r gwasanaethau fod yn gyfyngedig a gallai hyn fod wedi effeithio ar y gefnogaeth a ddarparwyd. Gallai Oedolyn N fod wedi cael mynediad at gyfleoedd trydydd sector a chefnogaeth gymunedol.*

3. Pan fydd plant yn cael eu cadw o dan y ddeddf iechyd meddwl a bod ganddynt hawl wedyn i ôl-ofal Adran 117, dylai gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol plant ymgyfarwyddo â'r gofynion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac ôl-ofal Adran 117, a dylid datblygu polisi ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n nesáu at fod yn oedolion sy'n destun y Ddeddf Iechyd Meddwl a rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd a'r awdurdod lleol am eu statws.

*Nododd yr adolygwyr bod y ddealltwriaeth o'r gofynion o dan y ddeddf iechyd meddwl yn cael ei chamddeall mewn perthynas â phobl ifanc sy'n cael eu cadw. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n cael eu cadw yn gwbl ymwybodol o gyfrifoldebau'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol y cawsant eu cadw ynddo.*

4. Ar gyfer pobl ifanc sy'n nesáu at fod yn oedolion, dylid ystyried trefniadau pontio ar adegau allweddol ar eu siwrnai, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n byw y tu hwnt i'w hardal wreiddiol.



*Dylai ymarferwyr ymgylfarwyddo â threfniadau pontio o fewn yr ardal leol a mabwysiadu'r Egwyddorion Pontio sy'n ymwneud â Chwm Taf Morgannwg fel arfer da yn eu blaengynllunio.*


5. Dylid mabwysiadu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymyrraeth bob amser er mwyn sicrhau dull cyson o gynllunio unrhyw drefniadau cefnogi.

*Dylai ymarferwyr sicrhau, pan fydd trefniadau cefnogi'n cael eu lleihau, bod asesiadau a chynlluniau priodol yn adlewyrchu trafodaethau â phartneriaid a phobl ifanc.*

<b>Datganiad gan Adolygwyr</b>			
<b>ADOLYGYDD 1</b>	Alex Beckham	<b>ADOLYGYDD 2</b>	Steph Webber
<b>Datganiad o annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>		<b>Datganiad o annibyniaeth o'r achos</b> <i>Datganiad cymhwysedd Sicrwydd Ansawdd</i>	
Rwy'n gwneud y datganiad a ganlyn, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferw(y)r dan sylw</li> </ul>		Rwy'n gwneud y datganiad a ganlyn, cyn i mi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-  <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos</li> <li>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar yr ymarferw(y)r dan sylw</li> </ul>	

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gennyf y cymwysterau, yr wybodaeth, y profiad a'r hyfforddiant cydnabyddedig priodol i gynnal yr adolygiad</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drylwyr wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion a nodir yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>
---	---

<b>Adolygydd 1</b> <i>(Llofnod)</i> 	<b>Adolygydd 2</b> <i>(Llofnod)</i> 
<b>Enw</b> <i>(Prif Lythrennau)</i> Alex Beckham	<b>Enw</b> <i>(Prif Lythrennau)</i> Steph Webber
<b>Dyddiad</b> 02/02/2022	<b>Dyddiad</b> 02/02/2022

<b>Cadeirydd y Panel Adolygu</b> <i>(Llofnod)</i> 
<b>Enw</b> Lisa Curtis Jones



*(Prif Lythrennau)*

**Dyddiad**

02/02/2022

**Atodiad 1:** Cylch gorchwyl

**Atodiad 2:** Llinell amser gryno

### **Proses Adolygu Ymarfer Oedolion**

Cafodd amgylchiadau'r achos hwn eu hystyried gan Grŵp Cydadolygu Bwrdd Diogelu Cwm Taf ym mis Gorffennaf 2020 lle cytunwyd eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig.

Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3" a threfnwyd Panel a fynychwyd gan y gwasanaethau / asiantaethau a ganlyn:

- Gwasanaethau Oedolion RhCT
- Heddlu De Cymru
- Keys Care
- Gwasanaethau Plant yn Lloegr
- Gwasanaeth Trais Domestig OASIS

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 8<sup>fed</sup> Gorffennaf 2021 a fynychwyd gan y gwasanaethau / asiantaethau canlynol:

- Keys Care
- Gwasanaeth Trais Domestig OASIS
- Gwasanaethau Oedolion RhCT
- Iechyd Meddwl Oedolion RhCT
- Gwasanaethau Plant yn Lloegr

Mae Mam Waed Oedolyn N wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf, a gofynnwyd am ei barn a chafodd ei chynrychioli drwy gydol yr adolygiad hwn.

Y teulu wedi gwrthod ymwneud

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn yr wybodaeth .....

Dyddiad y llythyr cydnabod a anfonwyd at Gadeirydd SAB .....

Dyddiad dosbarthu i arolygiaethau perthnasol / Arweinwyr Polisi .....

<b>Asiantaethau</b>	<b>Ie</b>	<b>Na</b>	<b>Rheswm</b>
AGGCC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
AIC	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	